



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Byddwch yn barod am 20mya



O **17 Medi 2023** ymlaen, bydd y rhan fwyaf o derfynau cyflymder 30mya yng Nghymru yn newid i 20mya.


Mae 20mya yn fwy diogel i bawb o ran lle rydyn ni'n byw, gweithio a chwarae. Dewch i ni ofalu am ein gilydd.

#BarodAm20mya



Mae 20mya yn fwy diogel

Yn y pellter stopio car ar gyflymder o 20mya, byddai car ar gyflymder o 30mya yn dal ar 24mya. A phan fo rhywun yn cael ei daro gan gerbyd sy'n teithio ar gyflymder o 30mya, maen nhw tua phum gwaith yn fwy tebygol o gael eu lladd nag ar gyflymder o 20mya.



Yn ôl astudiaeth iechyd cyhoeddus, bydd y terfynau cyflymder 20mya, bob blwyddyn, yn arwain at:

- 40% yn llai o wrthdrawiadau,
- achub 6 i 10 o fywydau
- rhwng 1,200 a 2,000 o bobl yn osgoi cael eu hanafu.¹

Bydd siwrneiau oddeutu munud yn hirach² ond ar y cyfan, gallwn ddisgwyl:

- y bydd ein strydoedd yn fwy diogel – gyda llai o wrthdrawiadau, anafiadau a marwolaethau (a llai o effaith ar wasanaethau brys a'r GIG)
- y bydd rhagor ohonom – o bob oed – yn teimlo'n fwy diogel i gerdded, beicio a theithio ar olwynion yn ein cymunedau
- y bydd ein hiechyd a'n llesiant yn gwella, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

1) Jones, S., Brunt, H, "Twenty miles per hour speed limits: a sustainable solution to public health problems in Wales", *Journal of Epidemiology and Community Health*. (2017)

2) Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20mya) (Cymru) 2022

Gweld goleuadau stryd? Meddwl 20mya

Pan welwch chi
oleuadau stryd,
tybiwch mai 20mya
yw'r terfyn cyflymder,
oni bai eich bod yn
gweld arwyddion sy'n
nodi fel arall.

Gan amlaf, bydd y strydoedd 20mya
mewn ardaloedd preswyl lle mae
pobl a cherbydau yn cymysgu.

Bydd GanBwyll, yr Heddlu a
phartneriaid yn parhau
i addysgu, trafod
a gorfodi terfynau
cyflymder 20mya i
wneud y ffyrdd yn saffach
i bawb yn y gymuned.

**Cofiwch: gweld
goleuadau stryd,
meddwl 20mya.**

20mya. Ychydig yn arafach, ond llawer iawn gwel.

Mae'r rhan fwyaf o bobl
Cymru (63%) yn cefnogi
terfyn cyflymder is lle
maent yn byw.³

Helpwch i greu strydoedd mwy
diogel a chymunedau iachach:
gyrrwch ar gyflymder o 20mya
neu is ar strydoedd lle mae
pobl yn byw, gweithio
a chwarae.

Mae rhagor o wybodaeth
am 20mya ar gael ar

llyw.cymru/barodam20

I wirio eich strydoedd lleol,
ewch i mapdata.llyw.cymru
(teipiwch '20mya' yn y blwch
chwilio) neu edrychwch ar
wefan eich cyngor lleol.

Mae'r daflen hon ar gael
mewn fformatau eraill:
Anfonwch e-bost i
cymorth@llyw.cymru
neu ffoniwch
0300 0604400